# Papur Bwrdd

20 Medi 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur** | **Adroddiad Perfformiad 2018/19**<br>**Adroddiad chwarter un (1 Ebrill 2018 i 30 Mehefin 2018)** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 44.18** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Mark Hughes** |
| **Cyflwynwyd y papur gan** | **Claire Pillman** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwaith Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter un 2018/19 cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru, gan ystyried y canlynol yn benodol:<br>• Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd y mae deddfwriaeth ddiweddar wedi newid sut rydym yn gweithio<br>• Y camau gweithredu a gymerwyd ac a gynlluniwyd |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>• **Edrych ar y tymor hir** – mae'r gweithredu ar draws y dangosfwrdd yn rhan o'n Cynlluniau Busnes a Chorfforaethol ac uchelgais hirdymor ein Datganiad Llesiant.<br>• **Gweithredu mewn ffordd integredig –** mae'r adroddiad perfformiad yn rhychwantu ehangder ein gwaith.<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –** mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd.<br>• **Gweithio mewn ffordd gydweithredol** – mae nifer o'n mesurau yn adlewyrchu gweithio gyda nifer o bartneriaid.<br>• **Atal problemau rhag codi** – mae nodi problemau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar trwy'r adroddiad perfformiad, a chynlluniau i ddelio â'r rhain, yn galluogi nodi gwelliannau posibl. |

**Mater**

1. Mae rownd chwarter un 2018/19 o adrodd perfformiad corfforaethol, ar gyfer 1 Ebrill 2018 – 30 Mehefin 2018, bellach wedi cael ei chwblhau. Mae'r adroddiad perfformiad wedi cael ei baratoi i'r Bwrdd graffu arno cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adrodd ar berfformiad yn cael ei gynnal bob tri mis, sy'n newid ar y llynedd (pan oeddem yn adrodd bob pedwar mis)

**Cefndir**

2. Mae'r adroddiad perfformiad corfforaethol yn un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein gwaith cyflawni ac ategu cynllunio strategol.

3. Datblygwyd yr adroddiad perfformiad (atodiad 1) fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Busnes 2018–19 a'r Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol ac is-grŵp Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:
   - Dangosfwrdd sy'n rhoi trosolwg un dudalen o uchafbwyntiau perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2018–19.
   - Testun ar gyfer pob targed dangosfwrdd sy'n nodi pam fod pob gweithgaredd yn bwysig, yr hyn rydym wedi'i gyflawni, a'r hyn rydym yn mynd i'w wneud nesaf.
   - Testun yn esbonio sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi newid y ffordd rydym yn gweithio.

4. Dyma'r adroddiad cyntaf ar gyfer ein Cynllun Busnes cyfredol (2018/19). Dyma'r adroddiad cyntaf hefyd yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol newydd hyd at 2022. Mae ein Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys ein set ddiweddaraf o Ddangosyddion Corfforaethol ac rydym yn disgwyl adrodd amdanynt yn ddiweddarach eleni. Mae adrodd am ddangosyddion yn rhoi cymorth penodol i gynllunio ac adolygu'n Hamcanion Llesiant yn strategol bob blwyddyn.

**Asesiad**

5. Ar gyfer y dangosfwrdd, dangosir yr adroddiad cyntaf ar ein perfformiad ar gyfer y Cynllun Busnes newydd (2018–19), isod. Ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol byddwn yn dangos sefyllfa adroddiad blaenorol, a'r disgwyliad, fel y bo'n briodol.

| | Chwarter 1<br>1 Ebrill 2018 – 30 Mehefin 2018 |
|---|---|
| 'Gwyrdd' | 24 |
| 'Gwyrdd/Oren' | 0 |
| 'Oren' | 3 |
| 'Coch/Oren' | 2 |
| 'Coch' | 0 |
| Amherthnasol | 6 |
| Cyfanswm | 35 |

6. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter 1 2018–19, gan ystyried y canlynol yn benodol:

- Digonedd yr esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd mae deddfwriaeth ddiweddar wedi newid sut rydym yn gweithio
- Y camau gweithredu a gymerwyd ac a gynlluniwyd.

7. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r eitemau canlynol o'r adroddiad perfformiad

- Coch/Oren – Ymateb i ddigwyddiadau – Bu hwn yn chwarter heriol gydag adnoddau'n cael eu dargyfeirio i helpu gydag ymateb i ddigwyddiadau yn ogystal â chyflawni gwaith blaenoriaeth arall. Roedd hyn yn golygu y bu llai o bwyslais ar sicrhau cyflawni amserlenni a diweddaru cofnodion digwyddiadau a'u cau mewn ffordd amserol. Mae rhyngweithio'n parhau gyda thimau lleol sy'n derbyn data perfformiad. Mae hyn yn ein helpu i ddeall ble mae'r rhwystrau a'r blociau i ddigwyddiadau'n cael eu cau o fewn 30 diwrnod, a thargedu'n well ble mae angen gwneud gwelliannau. Bydd arweiniad pellach yn cael ei roi i dimau i annog ychwanegu'r amseroedd ymateb i adroddiadau er mwyn nodi'n haws ein hamseroedd ymateb i ddigwyddiadau 'categori uchel'. Rydym yn gwybod bod bwlch rhwng ein hymateb ar lawr gwlad a'n dull adrodd, ac rydym yn gweithio ar wella hynny.
- Coch/Oren – Rhaglen cronfeydd dŵr – Diben Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yw amddiffyn pobl ac eiddo rhag gollyngiad direolaeth o ddŵr o gyforgronfeydd dŵr mawr, a'r canlyniadau trychinebus posibl a allai godi yn sgil hyn. Roedd newid mewn deddfwriaeth yn 2016 yn golygu ein bod bellach yn rheoli a chynnal 40 o gronfeydd dŵr o dan y Ddeddf. Rydym yn cyflawni rhaglen waith i sicrhau bod yr holl gronfeydd dŵr hyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gwelwyd gostyngiad o ran perfformiad, yn bennaf yn sgil newid i'r ddeddfwriaeth sy'n golygu bod mwy o doriadau i'r Ddeddf yn cael eu hadrodd yn gynharach. Mae gennym swm sylweddol o fesurau cywirol i'w cyflawni. Mae cyfanswm o 225 o "fesurau er mwyn diogelwch" i'w cwblhau erbyn 2022; Mae 105 wedi cael eu cwblhau hyd yn hyn gyda 60 pellach angen eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn 2018–19. Mae gennym raglen waith sy'n mynd rhagddi i fynd i'r afael â'r mesurau gofynnol ac rydym yn parhau i asesu pob safle i nodi'r opsiwn rheoli gorau yn y dyfodol naill ai er mwyn gwella, cynnal neu derfynu. Rydym yn rhagweld gwelliant wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn, ond mae'n annhebygol o droi yn wyrdd gan fod nifer sylweddol o fesurau i'w cwblhau.
- Oren – Asedau llifogydd – rydym yn berchen ac yn cynnal dros 3,900 o asedau perygl llifogydd sy'n darparu safon amddiffyn y cytunwyd arni ar gyfer 73,000 o dai yng Nghymru. Rydym yn arolygu ein hasedau ar sail treigl a gynlluniwyd, rydym yn cynllunio atgyweiriadau lle y bônt yn angenrheidiol ac yn monitro'r statws bob mis. Ar y lefelau cyfredol, mae angen cywiro 55 o asedau i gyrraedd y targed o 99% o'n hasedau mewn systemau risg uchel yn pasio. Roedd y rhagolwg ar gyfer atgyweirio 13 o asedau yn chwarter un, a gwnaed pump ohonynt. Mae atgyweirio asedau yn cael ei flaenoriaethau yn ôl graddau'r perygl llifogydd a gyflwynir gan yr ased sy'n methu a'r adnoddau sydd ar gael. Gall digwyddiadau llifogydd hefyd effeithio ar y rhaglen atgyweirio. Mae cynlluniau wrth gefn wedi cael eu creu yn lleol yn ôl y gofyn tan fod yr ased yn hollol ddefnyddiol. Rydym yn disgwyl i'r asedau na chawsant eu

hatgyweirio yn chwarter un dderbyn sylw yn chwarter dau ynghyd â'r rhai a gynlluniwyd eisoes. Gan fod asedau'n cael eu harolygu ar sail dreigl wrth i asedau gael eu trwsio, bydd rhai eraill yn cael eu nodi fel rhai sy'n methu. Mae'n anodd rhagweld lefelau perfformiad yn y dyfodol gan fod methiannau newydd yn gallu cael eu nodi ar unrhyw adeg, ond mae atgyweiriadau yn cael eu gweithredu yn sgil y gwaith monitro. Mae'r atgyweiriadau mwyaf sylweddol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen waith cyfalaf, felly gallai gymryd peth amser i'w cyflawni. Enghraifft o hyn yw'r gwaith lliniaru llifogydd sylweddol yng Nghrindau, Casnewydd.

- Oren – Monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion – *P ramorum* yw'r broblem clefyd coed mwyaf difrifol i effeithio ar goedwigoedd yng Nghymru. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae wedi lledaenu'n gyflym iawn a bellach mae'n achosi effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol difrifol iawn. Mae'r mesurau rheoli drwy'r Hysbysiad Statudol yn ofyniad cyfreithiol er mwyn diogelu planhigion rhag plâu a chlefydau niweidiol drwy atal cyflwyniad neu ledaeniad clefyd. Rydym wedi bod yn rheoli'r clefyd drwy roi Hysbysiadau Statudol ers 2010. Hyd yn hyn mae dros 8,000 hectar o larwydden ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi'i roi o dan ryw fath o Hysbysiad Statudol. Byddwn ni'n parhau i reoleiddio'r clefyd yn y dull a nodwyd yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Phytophthora ramorum* yng Nghymru – Strategaeth Rheoli'r Clefyd. Nid yw'r targed o 90% o hysbysiadau i'w rhoi o fewn 30 diwrnod i gadarnhau'r clefyd wedi'i gyrraedd; ar hyn o bryd mae'n 60%.
- Oren – Cynllun sefydliadol – rydym yn datblygu model gweithredu newydd sy'n cyflawni ein diben ac yn galluogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob peth a wnawn. Roedd angen amser ychwanegol ar gyfer diwygio a phrofi ein hadolygiad uwch-reolwyr a chafodd y cynllun manwl ei gwblhau ym mis Gorffennaf yn hytrach na mis Mehefin fel y cynlluniwyd, a dyna sydd i gyfrif am y statws oren. Fodd bynnag mae'r rhaglen gyffredinol yn dal i fod ar y trywydd cywir.
- Gwyrdd – Adolygiad Annibynnol o Gontractau Pren – mae ein hadolygwyr annibynnol wedi cael eu penodi ac maent bellach yn dechrau ar eu hadolygiad o'r dogfennau a'r rhaglen o gyfarfodydd gyda staff, aelodau'r Bwrdd a Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn disgwyl eu hadroddiad yn ystod tymor yr hydref. Byddwn yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddarach ym mis Medi.

8. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb llafar o'r hyn a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Bwrdd a bydd aelodau o'r tîm gweithredol ar gael i ateb cwestiynau.

9. Bydd yr adroddiad perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Argymhelliad**

10. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Graffu a chytuno ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter un, cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Risgiau allweddol**

11. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad yn adlewyrchu'n gywir y cynnydd tuag at Amcanion y Cynllun Busnes/Corfforaethol, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cyflawni ei rôl i graffu ar ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o gyflawni'r gwaith hwn.

**Goblygiadau ariannol**

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i ddarparu'r adroddiad perfformiad.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

13. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Busnes 2018–19.

**Mynegai o atodiadau**

Atodiad 1 – adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter un 2018–19 (1 Ebrill 2018 – 30 Mehefin 2018).